**Cofnodion Cyfarfod CYNGOR SIR CEREDIGION**
**a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell**
**trwy gynhadledd fideo ddydd Iau, 21 Medi, 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Maldwyn Lewis (Cadeirydd), y Cynghorwyr Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Hugh R M Hughes, Chris James, Gwyn James, Gareth Lloyd, Paul Hinge, John Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall

(10.00am - 11.40am)

**Gweithdrefn**
Croesawodd Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Maldwyn Lewis, bawb i'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu.

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Euros Davies, Rhodri Davies, Elaine Evans, Raymond Evans, Ceris Jones, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan a Caryl Roberts am na allent fynychu'r cyfarfod.

**2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau personol na buddiannau sy'n rhagfarnu.

**3 Materion Personol**

a) Croesawodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis Mr Ricky Cooper, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal (a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) i'r Cyngor a dymunodd yn dda iddo yn ei rôl newydd;
b) Estynnodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis ei ddymuniadau gorau i ddisgyblion, myfyrwyr ac athrawon ar ddechrau eu tymor newydd;
c) Llongyfarchodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis Brifysgol Aberystwyth ar gael ei henwi'n Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru 2024 gan *The Times and The Sunday Times Good University Guide*, ac ar ddod yn ail yn y Deyrnas Unedig ar gyfer Profiad Myfyrwyr;
d) Llongyfarchodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis Rali Ceredigion ar ei lwyddiant;
e) Nododd y Cynghorydd Maldwyn Lewis fod Cymdeithas Aredig Cymru wedi cynnal cystadlaethau cenedlaethol yn Llan-non yn ddiweddar;
f) Llongyfarchodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis Gareth Thomas ar gynrychioli Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd;
g) Llongyfarchodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis yr Eisteddfodau lleol ar eu llwyddiant;
h) Diolchodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis i'r holl Aelodau am eu cefnogaeth yn y Gwasanaeth Dinesig diweddar, gan nodi bod mwy na £2,000 wedi ei godi ar gyfer Uned Chemotherapi Bronglais;
i) Llongyfarchodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis Josh Tarling ar ei lwyddiant ym Mhencampwriaeth Seiclo Ffordd Ewropeaidd yr UEC yn ddiweddar. Ategwyd hyn gan y Cynghorydd Marc Davies, Aelod Lleol, y Cynghorydd Paul Hinge a'r Cynghorydd Catrin M S Davies;

j) Nododd y Cynghorydd Maldwyn Lewis ei fod wedi mynychu digwyddiad i ffoaduriaid ar gampws Llambed Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ddiweddar a nododd eu bod wedi mynegi eu diolch i bobl Ceredigion am eu gofal a'u cefnogaeth;
k) Diolchodd y Cynghorydd Paul Hinge i bawb am eu cefnogaeth yn ystod digwyddiad diweddar i'r Lluoedd Arfog yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth;
l) Llongyfarchodd y Cynghorydd Paul Hinge Stevie Williams ar ddod yn drydydd yn y Tour of Britain, ac ar ennill y Tour of Norway;
m) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Elliw Dafydd ar gael ei phenodi'n Ddirprwy Drysorydd Ffermwyr Ifanc Ceredigion;
n) Mynegodd y Cynghorydd Marc Davies ei ddymuniadau gorau i Mark Edwards ar ail-agor y Llew Coch yn Ffos-y-ffin;
o) Mynegodd y Cynghorydd Carl Worrall ei ddymuniadau gorau i Helen Pearce a Pamela Worrall ar gael eu dewis i gynrychioli Cymru yn y pencampwriaethau pysgota glan môr rhyngwladol yn Sisili fis nesaf; Dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd Carl Worrall hefyd fel Rheolwr y Tîm;
p) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies Mia Lloyd ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru yn y Gemau Paralympaidd;
q) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies Ruth Jen ar gael ei dewis i arddangos ei gwaith yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd ac ar ennill gwobr dewis y bobl am ei gwaith celf serameg;
r) Llongyfarchodd y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans Dewi Davies ar gael ei ethol yn Is-Gadeirydd Ffermwyr Ifanc Cymru;
s) Llongyfarchodd y Cynghorydd Amanda Edwards James Williams ar ennill y trydydd safle yn Rali Ceredigion yn ddiweddar;
t) Cydymdeimlodd y Cynghorydd Keith Henson â theulu Meurig James, cyn-gynghorydd Sir Ceredigion, a fu farw'n ddiweddar.

**4 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2023**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2023 yn rhai cywir yn amodol ar wneud diwygiad i eitem 3 h), Materion Personol i nodi bod Lisa Bullman wedi'i dewis i gynrychioli Cymru ym mhencampwriaeth saethu'r menywod a gynhaliwyd yn Lloegr.

Materion yn codi

Cafwyd diweddariad gan y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ar eitem 5: Rhybudd o Gynnig, gan nodi y derbyniwyd ymateb gan Building Digital ar 4 Awst. Dywedodd yr ymateb fod Broadway Partners wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, fodd bynnag ni ddylai cwsmeriaid weld unrhyw newid i'r cysylltiad band eang yn rhan o hyn. Yn ogystal, gellir dal i gysylltu â'r cwmni am unrhyw gymorth technegol.
Bydd unrhyw safle sy'n gymwys ar gyfer talebau nad yw wedi derbyn cysylltiad eto yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer cyllid gan y Llywodraeth.

Ni all y Llywodraeth ddweud mwy am y prosesau gweinyddol.
O ran cyfranogiad cyffredinol Ceredigion, fel rhan o'r Prosiect Gigabit, mae'r Llywodraeth wedi cychwyn proses Gaffael ranbarthol ers diwedd mis Gorffennaf a fydd yn cwmpasu'r rhan fwyaf o Geredigion – i'r gogledd o

Aberaeron-Tregaron fel dull amgen o gyrraedd cartrefi a busnesau lle nad oes cysylltiad band eang a dim galw yn y farchnad. Bydd ardal i'r de o Aberaeron – Tregaron yn cael ei chynnwys mewn proses debyg yn haf 2024.

Nododd y Cynghorydd Bryan Davies hefyd fod datganiad i'r wasg wedi'i anfon yr wythnos ddiwethaf yn annog y gymuned i gydweithio i drawsnewid dyfodol technoleg yn Nhregaron. Mae Openreach wedi nodi Tregaron fel ymgeisydd cryf ar gyfer rhwydwaith ffeibr llawn. Fodd bynnag, elfen hanfodol ar gyfer llwyddiant y prosiect yw gallu'r cymunedau i ddangos bod galw drwy gyflwyno Talebau Gigabit Llywodraeth y DU, sy'n rhad ac am ddim, i brosiect Openreach er mwyn cyrraedd y trothwy ariannu gofynnol. Bydd y prosiect hwn o fudd nid yn unig i gartrefi ond hefyd i fusnesau lleol, ysgolion a gwasanaethau gofal iechyd. Byddai datblygu prosiect o'r fath yn Nhregaron yn paratoi'r ffordd ar gyfer prosiectau tebyg ar draws Ceredigion.

5 **I ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ynghylch y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi na ddylid ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig fel cyllideb fanwl ffurfiol na phendant, yn hytrach, mae'n cynnig dull trosfwaol y bydd angen i'r Cyngor ei fabwysiadu er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau gan gynnwys ystyried yr amgylchedd deddfwriaethol, economaidd allanol a phwysau gwario a chyllid dangosol a ragwelir yn ystod y cyfnod.

Nododd fod Cyngor Sir Ceredigion eisoes yn wynebu heriau ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol hon, cyn y flwyddyn ariannol nesaf, a bod y strategaeth, sy'n cynnwys Crynodeb Gweithredol bellach yn cwmpasu'r cyfnod 2023/24 i 2026/27. Diolchodd y Cynghorydd Gareth Davies i'r Swyddogion a fu'n ymwneud â pharatoi a chyflwyno'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 19 Gorffennaf 2023 i'w ystyried, ac i'r Cabinet ar 5 Medi 2023. Penderfyniad y Cabinet oedd cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i diweddaru, ac argymell bod y Cyngor yn ei chymeradwyo.

Nododd y Cynghorydd Rhodri Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno mewn modd clir a hawdd ei ddeall, a bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi cael cyfle i ofyn ystod o gwestiynau ac y derbyniwyd ymatebion i'r cyfan.

Ailadroddodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor y gwerthfawrogiad i swyddogion gan nodi bod y Crynodeb Gweithredol yn ei gwneud yn llawer haws i'w ddeall.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

6 **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Orchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus**

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Tai, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus mewn grym yng nghanol trefi Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan sy'n caniatáu gwahardd yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus. Mae gweithredu Gorchymyn yn golygu ei bod yn drosedd os bydd rhywun yn methu â chydymffurfio â chais gan Swyddog yr Heddlu neu Swyddog
Awdurdodedig i beidio ag yfed alcohol neu'n gwrthod ildio alcohol i'r swyddog.

Mae'r Gorchmynion i fod i ddod i ben ar 19 Hydref 2023, fodd bynnag, mae Adran 60 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn caniatáu i Awdurdod Lleol ymestyn y Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus am dair blynedd arall pan fydd yn fodlon bod angen gwneud hynny er mwyn atal y gweithgarwch a nodir yn y Ddeddf rhag digwydd.

Mae'r Awdurdod wedi ymgynghori â Heddlu Dyfed-Powys, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, a'r tri Chyngor Tref (Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi); nodwyd bod yr ymatebion a gafwyd yn dynodi eu bod i gyd o'r farn y dylai'r Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus barhau mewn grym.

Nododd y Cynghorydd Endaf Edwards bryderon a godwyd gan drigolion lleol nad oedd y gorchmynion yn cael eu gorfodi. Dywedwyd wrtho y dylai aelodau'r cyhoedd hysbysu'r heddlu am unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol o ganlyniad i yfed alcohol er mwyn iddynt allu gweithredu ar hyn. Gofynnodd yr Aelodau hefyd sut yr oedd deddfwriaeth yn ymwneud â ymddygiad anghymdeithasol mewn ardaloedd heblaw'r rhai a gwmpesir gan y Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus. Nododd y swyddogion y byddent yn darparu gwybodaeth.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** bod y Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus ar gyfer Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag Alcohol yn cael eu hymestyn am 3 blynedd arall, yn weithredol rhwng 20 Hydref 2023 ac 19 Hydref 2026.

7 **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Orchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus - Traeth Borth**

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Tai, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi, cyn 2014, roedd gan ran o draeth a phromenâd y Borth ddau Orchymyn Rheoli Cŵn ar waith a wnaed o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 - un yn gwahardd cŵn o'r traeth (1 Mai – 30 Medi) ac un yn ei gwneud yn ofynnol i gŵn fod ar dennyn ar y promenâd. Roedd y Gorchmynion Rheoli Cŵn hyn yn cwmpasu rhan o'r

traeth nad oedd wedi'i chwmpasu gan is-ddeddf leol a chawsant eu rhoi ar waith yn 2008.

Mae gweithredu gorchymyn yn ei gwneud yn drosedd pan fydd person sydd â gofal am gi yn mynd â chi ar unrhyw dir y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddo (gydag eithriadau), neu'n methu â chadw ci ar dennyn (gydag eithriadau).

Mae'r Gorchmynion i fod i ddod i ben ar 19 Hydref 2023. Cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion adolygiad o'r Gorchymyn, gan gysylltu â Heddlu Dyfed Powys, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys a Chyngor Cymuned y Borth, a gofynnwyd i bob un ohonynt am eu barn ynghylch a yw'r gorchymyn yn dal i fod yn effeithiol ac a oes angen parhau â'r ddarpariaeth. Nid oes yr un wedi gwrthwynebu adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus am dair blynedd arall.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd eithriadau'n berthnasol i gŵn tywys a chŵn clywed, a dywedwyd wrthynt fod Swyddogion yn gwbl ymwybodol ac yn deall yr anghenion yn ymwneud ag amgylchiadau o'r fath.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn cymeradwyo ymestyn y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus i wahardd cŵn mewn ardal ddynodedig o draeth y Borth a'i gwneud yn ofynnol i gŵn gael eu cadw ar dennyn mewn ardal ddynodedig ar bromenâd y Borth am 3 blynedd arall o 19.10.2023 tan 18.10.2026 yn unol â Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

8 **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2022/2023**

Cyflwynodd y Cynghorydd Keith Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yr Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor gan amlinellu rôl a phwysigrwydd y pwyllgorau Craffu, a diolchodd i'r Swyddogion am eu cymorth trwy gydol y flwyddyn.

Diolchodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor i'r holl Aelodau am eu cyfraniad, ac am yr argymhellion a gyflwynwyd i'r Cabinet. Ailadroddodd y diolch i'r Swyddogion dan sylw.

9 **I gadarnhau apwyntiad Aelodau i'r rolau canlynol:**

**PENDERFYNWYD** penodi'r Aelodau canlynol:

Cydbwyllgor Corfforaethol: Is-bwyllgor Datblygu Strategol

- Y Cynghorydd Clive Davies
- Y Cynghorydd Ceris Jones
- Y Cynghorydd Gareth Lloyd

Ychwanegu Aelod Lleyg i'r Cydbwyllgor Corfforaethol, Is-bwyllgor Safonau

- Caryl Davies

Ychwanegu Aelod Lleyg i'r Cydbwyllgor Corfforaethol, Is-bwyllgor Archwilio
- Alan Davies

Grŵp Oeri'r Pwyllgor Rheoli Datblygu
- Y Cynghorydd Raymond Evans

Gweithgor Datblygu Lleol
- Y Cynghorydd Raymond Evans

Gweithgor Premiwm Treth y Cyngor ar Ail Dai a Thai Gwag Tymor Hir (7 Aelod cydbwysedd gwleidyddol)
- Y Cynghorydd Rhodri Davies: Plaid Cymru
- Y Cynghorydd Amanda Edwards: Plaid Cymru
- Y Cynghorydd Ann Bowen Morgan: Plaid Cymru
- Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans: Annibynnol
- Y Cynghorydd Keith Evans: Annibynnol
- Y Cynghorydd Elizabeth Evans: Democratiaid Rhyddfrydol
- Y Cynghorydd Paul Hinge: Democratiaid Rhyddfrydol

Aelod Eiriolwr: Menopos
- Y Cynghorydd Eryl Evans

**10 Diweddariad i Aelodaeth Pwyllgorau**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau Aelodaeth Pwyllgorau'r Cyngor fel y'i cyflwynwyd yn y cyfarfod.

**11 I ystyried adroddiad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth ar Daliad Ymadael oherwydd diswyddiad**

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 12 ar yr agenda i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 13, 14 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor, ar ôl cymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd, yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, bydd y cyhoedd a'r wasg yn cael eu
gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitem, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r Cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** gwahardd y cyhoedd a'r wasg wrth ystyried eitem 12 isod ar y sail bod y cais yn cynnwys gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn; gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes person penodol a gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgynghoriadau neu drafodaethau, neu unrhyw ymgynghoriadau neu drafodaethau arfaethedig, mewn cysylltiad ag unrhyw fater cysylltiadau llafur sy'n codi rhwng y Cyngor neu un o Weinidogion y Goron a gweithwyr neu ddeiliaid swyddi o dan y Cyngor; na

ddylai, at ei gilydd, gael ei datgelu i’r cyhoedd a’r wasg. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai’r gwe-ddarlledu yn cael ei atal yn ystod eitem 12 isod.

**12 Atodiad A yn berthnasol i'r Adroddiad uchod (Gwaharddwyd)**

Ystyriwyd cynnwys yr adroddiad, yn unol ag adran 11.1.4 o Bolisi Cyflogau’r Cyngor, sy’n nodi bod angen cymeradwyaeth y Cyngor lle mae’r gost ddiswyddo a’r elfen bensiwn, a delir gan y ddarpariaeth sy’n cael ei dal gyda Chronfa Bensiwn Dyfed, yn fwy na’r swm a nodwyd. Bydd methu â gwneud y naill neu’r llall o’r taliadau hyn yn golygu bod y Cyngor yn agored i hawliad drwy Dribiwnlys Cyflogaeth.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo’r diswyddiad arfaethedig

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 26 Hydref 2023**

**CADEIRYDD: ______________**